

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras



Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

07.10.26

Annwyl Rieni,

Parthed: Cyngerdd Mared Williams, Robat Arwyn a Chorau Ysgol Pen Barras – 17/10/26

Trefniadau'r Cyngerdd

Gyda'r cyngerdd bellach ymhen wythnos a hanner, hoffwn rannu trefniadau'r noson gyda rhieni ymlaen llaw.

Dydd Sadwrn, 17 Hydref 2026

- Plant i gyrraedd **erbyn 5.00yh fan bellaf**. Bydd angen cynnal ymarfer technegol/sain yn y theatr, yn ogystal ag ymarfer trefniadau eistedd a chodi.
- Bydd plant **Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6** yn eistedd ar feinciau ar y llwyfan ac yn perfformio o'r prif lwyfan.
- Bydd plant **Blynnyddoedd 1 a 2** yn eistedd ar feinciau ar y llawr ac yn perfformio oddi yno.
- Gwisg ysgol arferol Ysgol Pen Barras** – pawb i gofio gwisgo siwmpwr ysgol.
- Noder na fydd drysau'r theatr yn agor i'r gynulleidfa **tan 5.30yh**, oherwydd yr ymarfer technegol yn y neuadd.
- Rydym yn amcangyfrif y bydd y cyngerdd yn para **tua awr a hanner**, ac y bydd yn gorffen **rhwng 7.30yh a 7.45yh**.
- Bydd bwrdd raffl gan y **GRHA** yn y brif fynedfa. Cofiwch ddod ag arian parod os hoffech brynu tocynnau raffl.
- Gofynnir i enillwyr y raffl gasglu eu gwobrau o'r ffreutur ar ddiwedd y cyngerdd. Bydd Nic Parry yn cyhoeddi'r rhifau buddugol yn unig o'r llwyfan er mwyn arbed amser.

Trefniadau ar ddiwedd y cyngerdd

- Bydd staff Ysgol Pen Barras wrth ymyl y drysau allan o'r neuadd sy'n arwain at y maes parcio.
- Os yw rhieni'n **mynd â'u plant adref yn uniongyrchol o'r neuadd**, cofiwch hysbysu aelod o staff cyn gadael.
- Fel arall, gall rhieni fynd allan ac ymgynnull **ger yr allanfa/maes parcio**, lle bydd staff yn trosglwyddo'r plant yn ddiogel i'w rhieni.

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras



Ffôn: 01824 704 129

E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk

Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

Ceisiadau am gymorth

- Os oes gennych unrhyw **eitemau neu roddion ar gyfer y raffl**, byddai'r GRhA yn ddiolchgar iawn amdanynt. Gellir dod ag unrhyw roddion i swyddfa Ysgol Pen Barras erbyn **dydd Gwener, 16 Hydref**, os gwelwch yn dda.

Un o'r prif wobrau fydd dudalen cyntaf **sgôr cân newydd gan Robat Arwyn**, wedi'i fframio a'i harwyddo gan Robat a **Mared** – gwobr arbennig iawn!

- Rydym hefyd yn chwilio am **wirfoddolwyr i helpu i stiwardio'r maes parcio ac i gynorthwyo wrth y bwrdd raffl**. Cysylltwch â swyddfa'r ysgol os gallwch helpu.
- Yn ogystal, os oes gan unrhyw un **gerbyd, trelar neu fan** a fyddai'n addas i helpu'r ysgol i gludo **wyth mainc** o Ysgol Pen Barras i'r theatr cyn y perfformiad, byddem yn ddiolchgar iawn am unrhyw gymorth.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y cyngerdd – mae'r ymarferion yn yr ysgol yn mynd yn dda iawn ac mae'r plant yn edrych ymlaen at gael perfformio! Diolch o galon i bawb sydd wedi bod ynghlwm â'r gwaith trefnu, ac i chi fel rhieni am eich cefnogaeth.

Yn gywir,

Dyfan Phillips
Pennaeth
Ysgol Pen Barras